**Digwyddiad rhwydweithio – Tallinn, Estonia. 14 – 16 Tachwedd 2024**

**Adroddiad gan Russell George AS**

Dyma adroddiad ar fy ymweliad â dinas Tallinn rhwng 14 a 16 Tachwedd 2024. Diben yr ymweliad hwn oedd cymryd rhan mewn digwyddiad rhwydweithio Ewropeaidd, a gynhaliwyd yn y Riigikogu (Senedd Estonia), a meithrin ymwybyddiaeth well o Gymru a'r Senedd ymhlith y rhai a oedd yn bresennol.

Tallinn yw prifddinas Estonia. Mae’r ddinas wedi'i lleoli ar hyd bae yng ngogledd Estonia, ar lannau Gwlff y Ffindir ym Môr y Baltig. Mae ganddi boblogaeth o 461,000. Tallinn yw prif ganolfan Estonia ar gyfer gweithgarwch llywodraethol, ariannol, diwydiannol a diwylliannol.

Ar y noson cyn y prif ddigwyddiad, cefais ginio rhwydweithio gyda seneddwyr a chynrychiolwyr eraill o'r gwledydd Nordig-Baltig, a gwledydd eraill ar draws cyfandir Ewrop. Fel seneddwr o Gymru, cefais yr anrhydedd o estyn cyfarchion i’r rhai a oedd yn bresennol, a rhannu gwybodaeth am Gymru a'r Senedd. Roedd yr achlysur hwn yn gyfle gwych i gymryd rhan mewn trafodaethau ystyrlon gyda chynrychiolwyr a seneddwyr o'r Ffindir ac Estonia. Cawsom gyfle i gymharu'r sefyllfaoedd gwleidyddol sy’n bodoli yn ein priod genhedloedd ar hyn o bryd â'r amgylchiadau yng Nghymru.

Un o uchafbwyntiau'r ymweliad oedd y cyfle i gwrdd â Lauri Hussar AS, Llefarydd y Riigikogu. Yn ystod ein sgwrs, cawsom gyfle i gyfnewid mewnwelediadau gwerthfawr ar weithdrefnau seneddol a systemau etholiadol Cymru ac Estonia. Rhannodd y Llefarydd fanylion am gyfansoddiad y Riigikogu, y broses etholiadol, a'r angen am lywodraethau clymblaid yn sgil y system gynrychiolaeth gyfrannol. Mae gan y Riigikogu 101 o aelodau, a chawsom gyfle i drafod y diwygiadau yn Senedd Cymru a fydd yn digwydd cyn etholiad 2026.

Trafodwyd hefyd y perthnasoedd rhwng llywodraeth genedlaethol, llywodraeth ranbarthol a llywodraeth leol yn Estonia, a sut mae'r rhain yn cymharu â’r perthnasoedd yng Nghymru. Mae Estonia yn un o'r aelodau lleiaf poblog yr Undeb Ewropeaidd a NATO. Mae'n weriniaeth seneddol unedol ddemocrataidd, sydd wedi'i hisrannu’n 15 ardal weinyddol.

Roedd y prif ddigwyddiad rhwydweithio ei hun yn gyfle i gwrdd â seneddwyr eraill. Ar y cyd â chydweithiwr a oedd hefyd yn bresennol yn y digwyddiad, cyflwynais lwyau caru a darnau arian coffa i seneddwyr Estonia, a hynny ar ran Brecwast Gweddi Seneddol Gŵyl Ddewi. Roedd yn galonogol gweld pobl yn ymddiddori yn y broses o ymgysylltu ag eraill, a'u diddordeb yng ngwaith y Senedd.

Agwedd bwysig arall ar fy ymweliad oedd y cyfle i gymryd rhan mewn trafodaeth ar bolisi amaethyddiaeth a choedwigaeth gyda seneddwyr o Estonia, Sweden a'r Ffindir. Cefais gyfle i rannu mewnwelediadau ynghylch pwysigrwydd ffermio i Gymru a’r drafodaeth genedlaethol barhaus ar Gynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a chynlluniau

Llywodraeth y DU i newid y Dreth Etifeddiaeth. Daeth llawer o heriau cyffredin i'r amlwg o ran cydbwyso ffactorau amgylcheddol â chynhyrchu bwyd, a gwnaethom archwilio ymatebion polisi amrywiol.

Yn ystod yr ymweliad, cefais gyfle i gwrdd hefyd ag Annely Akkermann, sef Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn y Riigikogu. Gwnaethom drafod blaenoriaethau a heriau ariannol cyfredol, gan gymharu'r broses o graffu ar y gyllideb yng Nghymru ac Estonia. Roedd y cyfarfod hwn yn hynod fuddiol, a chlywais safbwyntiau gwerthfawr ar sut y gallwn wella ein prosesau seneddol a chyllidebol yn y Senedd.

I gloi, roedd yn anrhydedd cynrychioli Cymru yn y digwyddiad rhwydweithio Ewropeaidd hwn. Drwy gymryd rhan, cefais gyfle i hyrwyddo Cymru a'i hymdrechion seneddol a llywodraethol drwy ymgysylltu â seneddwyr eraill. Roedd y cyfarfodydd gyda Llefarydd y Riigikogu a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn addysgiadol tu hwnt, gan roi digon imi gnoi cil amdano.